**ELL 03-01(cofn)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 8 Chwefror 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:**

Gareth Jones, Christine Humphreys, Alun Pugh a Jonathan Morgan

**Dirprwyadau:**

Owen John Thomas yn lle Gareth Jones

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athro Cofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Owen John Thomas Athro Cymwysedig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr,

Prifysgol Caerdydd

**Eitem 1: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniadau gan Sefydliadau Addysg Uwch**

**Prifysgol Morgannwg**

***Papur: ELL 03-01(p.1)***

1.Cyfeiriodd yr Athro Syr Adrian Webb at y papur yn Atodiad 1. Yr oedd gwaith

y Brifysgol yn troi o gwmpas sylfaen ymchwil gymhwysol sydd wedi'i haddasu at drosglwyddo gwybodaeth/technoleg i Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint. Yn benodol, cyfeiriodd at ymrwymiad Prifysgol Morgannwg i ehangu cyfranogiad ac edrych tua'r dyfodol, yr oedd y Brifysgol yn cydnabod yr angen i ymdrin â materion fel Rheoli Adnoddau Dynol a Chyfle Cyfartal mewn Addysg Uwch yn y DU.

2. Pwysleisiodd yr angen am adnoddau ychwanegol ac awgrymodd y byddai

cronni adnoddau'n ddull effeithiol o reoli newid yn ariannol.

1.3 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Beth oedd y sail resymegol ar gyfer defnyddio masnachfreintiau a pha fanteision a gâi

Cymru o gydweithredu helaethach rhwng y sectorau addysg bellach ac uwch?

Yr oedd angen i addysg bellach ac uwch weithio’n galetach ac yn agosach er mwyn cyrraedd pobl mewn ardaloedd pellennig a dymchwel y rhwystr seicolegol i fyfyrwyr h^yn.

- A oedd twf y Brifysgol yn gynaliadwy ynteu a oedd perygl iddi orymestyn ei gallu rheoli? Sut y byddai’n datblygu? Beth oedd canlyniad y gwargedau sylweddol a wnaeth y Brifysgol o’i gallu i arloesi?

Yr oedd Prifysgol Morgannwg wedi defnyddio adnoddau i brynu arbenigedd prin o ansawdd da gan nad oedd modd iddi gystadlu â’r cyflogau mwy a gynigid gan sefydliadau addysg uwch. Ynghylch ailstrwythuro, yr oedd y Brifysgol yn gorfod ariannu costau pensiwn actiwaraidd y staff a oedd wedi ymddeol yn gynnar ac yr oedd wedi defnyddio ei harian ei hun i brynu tir ac adeiladau i greu mwy o le i’r staff ac i ddenu myfyrwyr. Yr oedd y gymhareb staff-myfyrwyr yn wael ar y pryd.

- Prifysgol Morgannwg oedd yr unig sefydliad a oedd wedi datgan cysylltiad â phartneriaeth ryngwladol i fanteisio ar ddatblygiadau mewn e-ddysgu; beth oedd y rhesymau am hynny? Pa fantais a geid pe byddai prifysgolion yng Nghymru’n mabwysiadu’r dull hwn o weithredu?

Yr oedd Prifysgol Morgannwg yn gysylltiedig â’r Consortiwm Prifysgolion a gâi ei arwain gan ymchwil. Amhosibl oedd rhagweld effeithiau posibl cysylltu addysg uwch yn fyd-eang, felly yr oedd yn holl bwysig meddu ar y medrau i allu cymryd rhan yn y broses er mwyn deall y problemau posibl. Yr oedd gan Brifysgol Morgannwg raglen datblygu staff, a fyddai’n newid y dull o ddysgu oddi ar y campws, gallai Consortiwm Cymreig i ddarparu cyrsiau fod yn effeithiol ac yr oedd posibiliad o’i werthu dramor.

- Sut y gallai Cymru feithrin meysydd ymchwil orau heb droi adnoddau mawr eu hangen oddi wrth y canolfannau rhagoriaeth presennol?

Yr oedd ar Gymru angen gallu ymchwil o safon fyd-eang ond nid ar draul ymchwil gymhwysol a pharhau i drosglwyddo gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint. Yr oedd angen mwy o adnoddau ar gyfer canolfannau ymchwil gymhwysol.

**Athrofa Addysg Uwch Abertawe**

***Papur: ELL 03-01(p.2)***

2.1 Cyfeiriodd yr Athro David Warner at y papur yn Atodiad 2. Pwysleisiodd genhadaeth benodol yr Athrofa i ddatblygu a chynnal ymchwil sylfaenol a chymhwysol a throsglwyddo gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint. Talodd deyrnged i'r cydweithredu gwerthfawr rhwng yr Athrofa a Phrifysgol Abertawe.

2.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

fel sefydliad bach sut yr oedd Athrofa Abertawe yn cynnal amrediad o bynciau ac yn ariannu arloesedd o ystyried ei chostau gweinyddu uchel?

Yr oedd yr Athrofa yn gorfod arloesi i ddatblygu ei harbenigedd craidd presennol i gyrraedd marchnadoedd arbenigol, er enghraifft, peirianneg fecanyddol. Yr Athrofa oedd y sefydliad cyntaf i gynnig cymhwyster Meistr mewn e-fasnach yn y DU.

- Beth oedd ymateb yr Athrofa i 'un wlad, un brifysgol' oddi mewn i Brifysgol Cymru fwy gydag aelodaeth gyfartal, o dderbyn nad oedd ganddi bwerau i ddyfarnu graddau wedi'u dysgu neu raddau ymchwil?

Yr oedd yr Athrofa wedi'i dilysu gan Brifysgol Cymru ac, os oedd angen, byddai'n chwilio am drefniadau eraill, yr oedd hyn wedi digwydd o'r blaen ac yr oedd modd ei oresgyn.

- Beth oedd y berthynas â Phrifysgol Abertawe a sut y gallai ddatblygu yn y dyfodol?

Yr oedd perthynas agos rhwng yr Athrofa a'r Brifysgol ac yr oeddent yn ystyried datblygu gweithgareddau ar y cyd, fel rhaglenni busnes ac ysgol gyfraith ar y cyd.

- A fyddai'r Athrofa a'r Brifysgol yn cyfuno?

Yr oedd meddwl agored gan yr Athrofa, yr oedd cyfuniadau'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i argyfwng neu er mwyn ennill manteision sylweddol, ychwanegol i sefydliad. Yr oedd yn rhaid rheoli cyfuniadau'n dda, gallai problemau ddigwydd wrth ailstrwythuro fel colli cenhadaeth a hunaniaeth.

**Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru**

***Papur: ELL 03-01(p.3)***

3.1 Cyfeiriodd yr Athro Michael Scott at Atodiad 3 a mynegodd bryder am fod myfyrwyr Cymru yn gadael Cymru i astudio yn Lloegr. Yr oedd angen màs critigol yn yr Athrofa a gellid ceisio cynghrair strategol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i helpu i ddatrys y broblem. Byddai'r

Athrofa yn ceisio sicrhau ymchwil gymhwysol o ansawdd uchel i gynorthwyo adfywio economaidd yng ngogledd Cymru.

3.2 Yr oedd cynghrair strategol rhwng Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru a Phrifysgol Bangor a oedd yn cynnwys gweithgorau generig a gweithgorau pwnc, awgrymodd yr Athro Scott fod diffyg cynllunio llorweddol, strategol mewn Addysg Uwch yng Nghymru.

3.3 Cododd y pwyllgor y materion canlynol:

- Sut yr oedd Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn cynnal yr amrediad o bynciau a oedd yn ofynnol ac yn ariannu arloesedd o wybod bod ei gwariant ar gyflogau fel cyfran o gyfanswm ei hincwm yn gymharol uchel?

Yr oedd system cyrsiau modylaidd yn caniatáu hyblygrwydd a chydlyniad wrth gynllunio cyrsiau ac yr oedd yn cynnig llwybrau astudio eraill. Hefyd, yr oedd Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn ailstrwythuro ei system staffio.

- Nid oedd gan yr Athrofa yr hawl i ddyfarnu graddau wedi'u dysgu neu raddau ymchwil, yr oedd wedi datgan ei bwriad i ymuno â Phrifysgol Cymru ac yr oedd yn dadlau dros statws cyfartal oddi mewn i'r fframwaith hwnnw. Sut y gallai corff o'r fath greu prifysgol ymchwil o safon fyd-eang a chwrdd ag anghenion myfyrwyr ledled Cymru?

Ni fu rheoliadau'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd o gymorth o ran yr hawl i ddyfarnu graddau. Nodwyd nad oedd Prifysgol Bangor yn meddu ar yr hawl i ddyfarnu graddau, er ei bod yn brifysgol, ond yr oedd yn dal i fod yn rhan o Brifysgol Cymru.

- Beth oedd barn yr Athrofa am yr awgrym o 'un wlad, un brifysgol' oddi mewn i Brifysgol Cymru fwy gydag aelodaeth gyfartal?

Wrth gynllunio'n strategol, byddai angen cymryd i ystyriaeth gryfderau a gwendidau pob sefydliad unigol.

- Sut y gall Cymru ddatblygu cyfleoedd cenedlaethol, strategol ar gefndir y diwylliant cystadleuol sydd yn bodoli rhwng y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru?

Byddai angen i system ffederal ochel rhag cystadlu rhwng ei rhannau cyfansawdd a rhag i sefydliadau golli eu hunaniaeth oddi mewn i'w hardaloedd.

**Prifysgol Cymru, Aberystwyth**

***Papur : ELL 03-01(p.4)***

4.1 Cyfeiriodd yr Athro Derec Llwyd Morgan at y papur yn Atodiad 4 a phwysleisiodd fod y Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu, yr oedd ei chyfraddau cadw yn rhagorol.

4.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Bu ddiffyg ariannol gan y Brifysgol dros y blynyddoedd diweddar – pa gamau a oedd yn cael eu cymryd i gywiro'r sefyllfa hon a sut y gallai'r Adolygiad hwn fod o gymorth yn hynny o beth?

Yr oedd angen mwy o arian ar Addysg Uwch yng Nghymru. Yr oedd y Brifysgol wedi gwario tua £6 miliwn wrth ddatblygu ei stad/campws ac yr oedd bellach yn rheoli ei gwariant yn llymach.

- Sut yr oedd Cofrestrfa Prifysgol Cymru yn lleihau baich atebolrwydd? A fyddai'r rhyngberthnasoedd yn newid o ganlyniad i system Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd newydd? Beth yw'r model delfrydol y gellid seilio prifysgol o safon fyd-eang i Gymru arni?

Yr oedd Prifysgol Cymru yn cynrychioli Cymru gyfan a chynigiai strwythur ar gyfer cydweithredu a bondio yn y system Addysg Uwch drwyddi draw. Gallai'r Asiantaeth Asesu Ansawdd noddi canolfannau arbenigedd mewn Addysg Uwch yng Nghymru.

- Sut y gellid cryfhau a datblygu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ledled Cymru mewn modd cost-effeithiol?

Yr oedd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Morgannwg wedi ymrwymo i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd o'r pwys mwyaf bod yr holl ddarparwyr addysg yn gweithio i fagu awydd ymysg plant ysgol i ddysgu drwy'r Gymraeg.

- Sut y gallai'r Brifysgol gysoni'r genhadaeth o dan arweiniad ymchwil a oedd ganddi a'r pwysau cynyddol i ymateb i fentrau ar ehangu mynediad ac adfywio economaidd, diwylliannol a chymdeithasol?

Dylid cael cydbwysedd rhwng ymchwil wyddonol a dysgu/hyfforddi myfyrwyr ar ôl sefydlu polisi drws agored.

- Pe bai cydweithredu'n datblygu ar raddfa eang, boed hynny drwy gynghreiriau strategol neu gyfuniadau, sut y gallai'r Pwyllgor sicrhau bod y goreuon ym mhob sector arbenigedd yng Nghymru yn goroesi? Sut y gallai adrannau ymchwil gyfuno eu gweithgareddau er mwyn Cymru?

Yr oedd bri prifysgolion yn dibynnu ar gryfderau eu gwahanol adrannau. Dylid annog adrannau ymchwil i gydweithredu fel y gallai'r ymchwil orau un yng Nghymru ddod yn adnabyddus drwy'r byd a drwy hynny hyrwyddo bri Cymru fel canolfan rhagoriaeth.

- A fyddai canolfannau unigol o safon - fel honno yn Aberystwyth - ynghyd ag adrannau llai amlwg yn cael eu defnyddio'n well gyda'i gilydd oddi mewn i system brifysgol ffederal?

Gallai adrannau mwy gymryd myfyrwyr o ganolfannau llai 'o dan eu hadain', byddai hynny ynghyd â llai o feichiau gweinyddol yn caniatáu mwy o gynnydd.

**Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan**

***Papur: ELL 03-01(p.5)***

5.1 Cyfeiriodd yr Athro Keith Robbins at ei bapur yn Atodiad 5. Nid oedd maint a lleoliad Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan o'i phlaid, na'r pwysau cyffredinol o geisio ymateb i alwadau marchnadoedd arbenigol. Yr oedd wedi ceisio gwarchod ei hadrannau celfyddydau a dynoliaethau a sylweddolai na allai gystadlu â'r amrywiaeth o ddisgyblaethau a oedd gan y sefydliadau mwy. Cydnabyddai hefyd fod pen draw i'r hyn a allai ei wneud; nid oedd recriwtio'n hawdd. Cydnabu'r Athro Robbins fod Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn dilyn y posibiliad o gyfuno â Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd.

5.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Beth oedd sail resymegol y cyfuno arfaethedig â Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd – sut y byddai hyn yn cwrdd ag anghenion myfyrwyr ac yn peri i'r ddau sefydliad ddod yn hyfyw? A oedd dewisiadau eraill?

Yr oedd Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn gwneud yn dda iawn o ran cynnig y lefel o ddarpariaeth a oedd yn ofynnol gan brifysgol. Fodd bynnag, yr oedd yn anodd creu seilwaith a ganiatâi iddi ffynnu. Byddai cyfuno yn caniatáu gweinyddu mwy cost-effeithiol ar y cyd ac yn gadael i'r ddau sefydliad ganolbwyntio ar yr hyn a wnaent orau.

- A ellid cael strategaeth genedlaethol i'w defnyddio gan bob corff wrth ystyried cyfuno?

Dylai cyfuniadau gael eu creu gan bartneriaid parod eu hunain gyda rhyngweithio cymwynasgar o'r tu allan.

- A oedd dewisiadau yn lle cyfuno â Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd - Aberystwyth, er enghraifft, gan fod hynny'n ymddangos yn synhwyrol o ran pellter?

Amhriodol fyddai cymryd rhan mewn trafodaethau â phartïon eraill tra oedd yn negodi â Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd. Bu trafodaethau cynharach â Choleg y Drindod, Caerfyrddin ond rhoddwyd terfyn arnynt.

- Wrth geisio strategaeth dymor hir i Addysg Uwch yng Nghymru, oni fyddai cyfuno oherwydd argyfwng yn rhywbeth y dylid ei osgoi?

Nid oedd y trafodaethau â Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd yn ganlyniad i argyfwng, ond nid ymddangosai fod dewis arall ar hyn o bryd.

- A ddylai Llanbedr Pont Steffan fod yn ganolbwynt i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg?

Na ddylai, mae'r Brifysgol yn sefydliad Seisnigedig o fewn amgylchedd Cymraeg, byddai'n drawsnewidiad sylfaenol.

**Prifysgol Cymru, Abertawe**

***Papur: ELL 03-01(p.6)***

6.1 Cyfeiriodd yr Athro Robin Williams at ei bapur yn Atodiad 6, yr oedd cenhadaeth y Brifysgol yn cynnwys tri chysyniad - ymchwil, dysg a dysgu a gwasanaethu'r gymuned. Nid oedd yr ariannu presennol wedi hybu gweithgaredd ar sail y genhadaeth, fodd bynnag, yr oedd arian y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer offer ymchwil wedi bod yn dderbyniol iawn.

6.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Er mwyn creu prifysgol o safon fyd-eang i Gymru awgrymwyd y dylid ei seilio ar y pum prifysgol a arweinir gan ymchwil, neu fel arall ei seilio yng Nghaerdydd neu ar Brifysgol Cymru ehangach gydag aelodaeth gyfartal. Beth yw'ch barn am hyn?

Dylid ei seilio ar y pum prifysgol a arweinir gan ymchwil fel cnewyllyn. Ni fyddai'n briodol bod ag ail ddinas fawr yng Nghymru heb brifysgol a arweinir gan ymchwil.

- Sut y gallai'r Brifysgol gysoni'r genhadaeth o dan arweiniad ymchwil a oedd ganddi a'r pwysau cynyddol i ymateb i fentrau ar ehangu mynediad ac adfywio economaidd, diwylliannol a chymdeithasol?

Yr oedd gwrthdaro rhwng cenadaethau a phwysau'r system Addysg Uwch yng Nghymru. Dylai cydweithwyr barhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithredu a gweithio gyda'i gilydd yn lleol yn gyffredinol, h.y. Coleg y Drindod ac Athrofa Abertawe.

- Beth oedd graddau'r cydweithredu ag Athrofa Addysg Uwch Abertawe ac a oedd fframwaith strategol a allai arwain at gyfuno a fyddai o fudd i'r ddwy ochr?

Ni ddylai'r sefydliadau annibynnol yn Abertawe fod yn gweithio ar wahân, dylent rannu seilwaith. Trafodwyd rhagolygon cyfuno ond gallai hynny fod yn anodd gan fod cenadaethau'r cyrff yn wahanol. Yr ateb gorau, yn ôl pob tebyg, fyddai ystyried cynghreiriau strategol yn ardal De Orllewin Cymru: Prifysgol Abertawe, Athrofa Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Dylid rhannu adnoddau: cymorth a seilwaith TG. Byddai hyn o fudd i gymunedau'r rhanbarth hefyd.

- Yr oedd rhai sefydliadau ar y blaen i eraill o ran statws ac wrth ddenu cyllid. Gan fod y busnes yn gystadleuol, a oedd maint yn bwysig?

Yr oedd sbectrwm eang o ymchwil yn bodoli; yr oedd perygl o gymysgu rhwng ymchwil o ansawdd isel ac ymchwil gymhwysol, yr oedd hyn yn amlwg ledled y DU.

**Y Brifysgol Agored yng Nghymru**

***Papur: ELL 03-01(p.7)***

7.1 Cyfeiriodd Ms Miriam Griffiths at y papur yn Atodiad 7 ac yn arbennig at y ffaith mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a oedd yn ariannu'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac nid cyngor Cymru.

7.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Ariannir y Brifysgol Agored yn yr Alban gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ond nid oedd hyn yn wir yng Nghymru, pam yr oedd hynny?

Hyd at 1992 câi'r Brifysgol Agored ei hariannu gan y gyn Adran Addysg a Gwyddoniaeth, gyda dyfodiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr penderfynwyd drwy gonsensws y byddai'r Brifysgol Agored yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael ei hariannu drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Yr oedd y Brifysgol Agored yn gorff cymhleth ac nid oedd yn amlwg beth oedd goblygiadau ariannu gwahân.

- Nifer gymharol fach o fyfyrwyr a oedd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Pam yr oedd hynny a beth y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa?

Yr oedd y cyfranogiad ymysg oedolion wedi cynyddu yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Yr oedd y myfyrwyr yng Nghymru'n perfformio'n well bellach na'r rhai mewn rhannau eraill

o’r DU ond yr oedd angen rhoi sylw i’r ffordd o ymdrin â chynwysoldeb.

- A ddylai’r Brifysgol Agored gymryd rhan fwy pendant fel partner wrth elwa ar ddarpariaeth electronaidd yng Nghymru yn hytrach na bod yn gystadleuydd?

Nid oedd y strwythurau darparu presennol rhwng y pedair gwlad gartref yn caniatáu dull rhwydd o weithredu mewn partneriaeth. Yr oedd cymhlethdodau, yr oedd e-ddysgu’n cynnig addysg heb ffiniau, beth fyddai’r farchnad, a fyddai’n farchnad arbenigol yn cynnig cymwysterau medrau neu fusnes? Nid oedd yn amlwg sut y byddai pob un yn rhyngweithio ag agendâu lleol, systemau rheoli gwybodaeth ac anghenion myfyrwyr lleol a rhai pellach i ffwrdd.

- A ddylai’r Brifysgol Agored gymryd rhan fwy pendant fel partner wrth elwa ar ddarpariaeth electronaidd yng Nghymru yn hytrach na bod yn gystadleuydd?

Nid oedd y strwythurau ariannu presennol rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn hwyluso’r gallu i gydweithredu. Yr oedd cymhlethdodau: beth a allai fod yn farchnad arbenigol a beth am y rhyngweithio ag agendâu lleol?

**Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd**

***Papur: ELL 03-01(p.8)***

8.1 Cyfeiriodd yr Athro Chapman at y cyflwyniad yn Atodiad 8, yr oedd yr Athrofa’n recriwtio’n llwyddiannus ar hyn o bryd, yr oedd wedi cydweithredu â Phedwarawd Caerdydd ac yr oedd wedi ymrwymo i ddatblygu ymchwil a menter a chyfrannu at gymdeithas a oedd yn seiliedig ar wybodaeth.

8.2 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Sut yr oedd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn ariannu arloesedd a datblygiadau fel darpariaeth electronaidd, a sut y byddai’n ariannu cyflawni hynny?

Yr oedd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd wedi cymryd rhan mewn ymchwil arloesol lle’r oedd meysydd craidd o arbenigedd yn bodoli, chwilient am batrymau o ragoriaeth gyda strategaethau profedig a fyddai’n denu cyllid allanol. Yr oedd yr Athrofa mewn trafodaeth ag eraill ynghylch cyflawni, er enghraifft, â Phrifysgol Morgannwg a oedd â’i hamgylchedd dysgu rhithwir ei hun.

- A fyddai cydweithredu agosach/cyfuno â sefydliadau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru yn

fwy priodol?

Yr oedd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd wedi cydweithredu â Phedwarawd Caerdydd ond nid â Chasnewydd a oedd yn negodi â Llanbedr Pont Steffan.

- Beth oedd rôl Pedwarawd Caerdydd yng nghyd-destun Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd o'i chymharu ag aelodaeth Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd o Brifysgol Cymru?

Yr oedd gan yr Athrofa nifer o brosiectau a oedd yn mynd rhagddynt gyda Phedwarawd Caerdydd, defnyddient strategaeth ar gyfer prosiectau peilot a fyddai'n dynodi'r adran fwyaf addas i bob un. Hyd yn hyn ni fu trafodaethau ar weithio agosach.

- Safbwynt arall yn lle'r syniad o 'un brifysgol, un Gymru' yw ystyried trefniadau rhanbarthol. A ddylai Coleg Casnewydd, Prifysgol Morgannwg ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd geisio trefniadau ar wahân?

Yr oedd rhywfaint o gystadleugarwch yng Nghymru a phob corff ar hyn o bryd yn ystyried ei fentrau ei hun. Fodd bynnag, byddai Prifysgol unigol yn hyrwyddo mwy o ffyniant o lawer ond byddai'n rhaid i bawb gael yr un parch.

- A allai Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ymhelaethu ar y cyfeiriad yn ei gyflwyniad at y rhaniad rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch?

Dywedodd dogfen cyfuniadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru na ddylid cael cyfuno ar draws Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Yr oedd yr Adolygiad o Addysg Uwch yn cynnig cyfle i integreiddio addysg ôl-16 ag Addysg Bellach yn fertigol yng Nghymru.

**Prifysgol Cymru**

**Papur: ELL 03-01(p.9)**

9.1 Cyfeiriodd yr Athro Keith Robbins at y papur yn Atodiad 10. Dros yr wyth mlynedd diwethaf yr oedd Prifysgol Cymru wedi edrych yn fanwl ar faterion mecanweithiau cynllunio, rhesymoli ac ailstrwythuro. Yr oedd wedi ymdrechu i greu fframwaith academaidd yn seiliedig ar Fangor, Caerdydd, Aberystwyth ac Abertawe. Yr oedd Cyngor y Brifysgol i fod i gyfarfod ar 9 Chwefror i ymdrin ag aelodaeth Prifysgol Cymru, amrywiaeth cenadaethau'r holl aelodau a'r athrofeydd addysg uwch. Cydnabu hefyd y byddai angen iddi adolygu ei pherthynas â Phrifysgol Morgannwg fel rhan o'i hystyriaeth o aelodaeth. Bernid mai un brifysgol oedd y ffordd ymlaen ond byddai angen i'r aelodau fod yn bendant ynghylch yr hyn a ddymunent, efallai y byddai angen pwysoli'r cenadaethau.

Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Pa fecanweithiau yr oedd eu hangen i sicrhau cydweithredu?

Byddai’n holl bwysig cael golwg eang ar y modd i fwrw ymlaen â chydweithredu ond byddai hyn yn cymryd amser a byddai’n anodd ei drefnu. Byddai angen anogaethau, gan gynnwys mecanweithiau ariannu priodol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. **Mewn ymateb i’r Gweinidog, byddai’r Brifysgol yn falch o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig bellach ar hyn i’r Pwyllgor.**

- A oedd Prifysgol Cymru, fel strwythur ffederal, wedi gallu ystyried sut y gallai helpu ei rhannau cyfansawdd, e.e. Llanbedr Pont Steffan?

Yr oedd yn anodd trafod materion a oedd yn ymwneud â sefydliadau unigol oddi mewn i’r strwythur presennol, ond yr oedd yr Adolygiad o Addysg Uwch wedi bod o gymorth drwy hwyluso deialog.

- A allai strwythur diwygiedig roi cymorth cyfartal i’w rannau cyfansawdd?

Yr oedd hyn yn fater anodd a byddai angen trafodaeth a negodi.

- Pa swyddogaethau eraill a oedd gan Gofrestrfa’r Brifysgol y gellid eu cyflawni mewn ffyrdd eraill – yn enwedig y rhai a fyddai’n cryfhau ac yn cyfrannu at agenda’r Cynulliad Cenedlaethol?

Yr oedd rhai sefydliadau wedi tybio y gallent wneud yn well ‘ar eu pennau eu hunain’ heb fynd drwy’r Gofrestrfa. Fodd bynnag, yr oedd rhai gweithredoedd y byddai’n fwy synhwyrol eu gadael i ddarparwr canolog. Byddai angen i’r Gofrestrfa benderfynu ar y rôl fwyaf buddiol a allai fod iddi oddi mewn i’r strwythur diwygiedig.

**Eitem Dau: Cofnodion Cyfarfod 31 Ionawr.**

***Papur: ELL 02-01(mins)***

Gohiriwyd eu hystyried hyd y cyfarfod ar ddydd Mercher 14 Chwefror.